**EITEM AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Yn yr un modd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys mae angen adrodd ynghylch unrhyw fenthyciadau tymor hir a newidiadau i wrthbartïon yr Awdurdod i'r Awdurdod Tân.

### Cyflwyniad

**2.** Cymeradwywyd Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2006-2007 gan yr Awdurdod Tân yn Rhagfyr 2005. Ers eu cymeradwyo mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2006-2007 ymlaen wedi newid. Hefyd mae benthyciadau'r PWLB wedi'u haildrefnu ac mae rhai newidiadau i restr y gwrthbartïon.

## Dangosyddion Darbodus 2006-2007

**3.** Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2006-2007 wedi newid yn sgil llithriant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2005-2006 a newid yn lefel y Darpariaethau gan yr Awdurdod dros y lefelau a amcangyfrifwyd. Mae'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol yn fesur o ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod; mae'r Ffin Weithredol yn fesur o'r uchafswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu ar gyfer amrywiadau yn y llif arian; ac mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod fenthyca yn seiliedig ar asesu gofynion gweithredol a risgiau allanol. Mae'r tri phrif ddangosydd yma wedi newid ar gyfer 2006 -2007.

Mae cynnydd mewn gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd na chwblhawyd cynlluniau'n llawn yn 2005-2006 gan barhau yn 2006-2007.
Yn Atodiad A rhestrir y dangosyddion a adroddwyd yn Rhagfyr a'r dangosyddion diwygiedig.

## Aildrefnu Dyled

**4.** Ad-dalwyd y benthyciadau canlynol ar sail cyngor a roddwyd gan Butlers, ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, a threfnwyd nifer o fenthyciadau newydd yn eu lle. Yn sgil yr aildrefnu sicrhawyd arbedion blynyddol o £18.5k i'r Awdurdod ar daliadau llog.

**Benthyciadau a Ad-dalwyd**

| Prif swm<br>£ | Cyfradd<br>% | Dyddiad y<br>Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 400,000 | 4.4 | 01/07/2005 | 25 mlynedd | PWLB |
| 550,000 | 4.45 | 18/05/2005 | 5 ½ mlynedd | PWLB |
| 615,000 | 4.55 | 02/10/2003 | 6 mlynedd | PWLB |
| 512,000 | 4.65 | 28/03/2003 | 9 mlynedd | PWLB |
| 500,000 | 4.95 | 29/03/2005 | 10 mlynedd | PWLB |
| 500,000 | 4.95 | 29/03/2005 | 13 mlynedd | PWLB |
| 392,000 | 4.95 | 10/08/2004 | 26 mlynedd | PWLB |
| 1,000,000 | 4.65 | 29/11/2004 | 3 blynedd | PWLB |
| 305,000 | 4.75 | 23/11/2000 | 21 mlynedd | PWLB |
| 4,774,000 | Cyfanswm | | | |

**Benthyciadau Newydd**

| Prif swm<br>£ | Cyfradd<br>% | Dyddiad y<br>Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 1,000,000 | 4.25 | 19/07/2006 | 45 ½ mlynedd | PWLB |
| 500,000 | 4.25 | 19/07/2006 | 45 ½ mlynedd | PWLB |
| 500,000 | 4.25 | 19/07/2006 | 45 ½ mlynedd | PWLB |
| 1,000,000 | 4.25 | 19/07/2006 | 46 mlynedd | PWLB |
| 1,000,000 | 4.25 | 19/07/2006 | 46 mlynedd | PWLB |
| 774,000 | 4.25 | 19/07/2006 | 46 mlynedd | PWLB |
| 4,774,000 | Cyfanswm | | | |

## Gwrthbartïon

**5.** Gwneir yr holl fuddsoddiadau gyda gwrthbartïon cymeradwy ac mae staff Rheoli'r Trysorlys yn monitro statws credyd y gwrthbartïon. Os oes gostyngiad yn y statws credyd a'i fod yn gostwng yn is na'r criteria dewisol yna caiff ei dynnu oddi ar y rhestr gwrthbartïon. Rhestrir y gwrthbartïon presennol yn Atodiad B.

## Argymhellion

6. Argymhellir bod Aelodau'n
   - cymeradwyo'r Dangosyddion darbodus diwygiedig
   - nodi'r rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon
   - nodi'r benthyciad a aildrefnwyd.

***ATODIAD A***

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | 2006/07<br>£ | 2007/08<br>£ | 2008/09<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 2,780,000 | 3,599,000 | 3,268,000 |
| | Dangosydd Newydd | 4,110,000 | 3,599,000 | 3,268,000 |
| 2 | Nawdd Cyfalaf Gofynnol | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 11,475,000 | 14,257,000 | 16,450,000 |
| | Dangosydd Newydd | 11,277,790 | 14,049,000 | 16,171,000 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 16,190,000 | 18,990,000 | 21,195,000 |
| | Dangosydd Newydd | 16,791,000 | 18,862,000 | 20,983,000 |
| 4 | Ffin Weithredol | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 14,190,000 | 16,990,000 | 19,195,000 |
| | Dangosydd Newydd | 14,791,000 | 16,862,000 | 18,983,000 |
| 5 | Cymhareb Costau Ariannol i Lif Ariannol Refeniw Net | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 3.48% | 4.48% | 5.47% |
| | Dangosydd Newydd | 3.29% | 4.50% | 5.68% |
| 6 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar Gyfraniadau gan yr Awdurdodau cysylltiedig | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 62,550 | 418,547 | 840,585 |
| | Dangosydd Newydd | 92,475 | 573,915 | 995,846 |

***ATODIAD B***

**BUDDSODDIADAU GWRTHBARTÏON**

**Banciau terfyn £5m**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, Cheltenham & Gloucester, National Westminster, Royal Bank of Scotland, Abbey, Halifax and the Bank of Scotland, Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Allied Irish Bank, Northern Rock, Bradford & Bingley, Anglo Irish Bank, Woolwich, Close Brothers, Co-operative Bank, HFC Bank, Clydesdale, N M Rothschild, Schroeders, Bristol & West, Irish Permanent, Depfa Bank, IIB Bank, Ulster Bank, Citibank ac MBNA.

**Llywodraeth Ganol terfyn £5m**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Awdurdodau Lleol terfyn £2m**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i derfyn treth y cyngor a praeseptau dan Adran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cymdeithasau Adeiladu £2m**
Britannia, Chelsea, Cheshire, Derbyshire, Dunfermline, Leeds, West Bromwich, Nationwide, Norwich and Peterborough, Portman, Skipton, The Principality, Coventry, Newcastle a Yorkshire.